

## PWYLLGOR SAFONAU

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2012

#### YN BRESENNOL:

#### Aelodau Annibynnol

Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)  
Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)  
Ms Denise Harris Edwards  
Mr Leslie Lord  
Mrs Dilys Shaw

#### Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cynghorydd T. Lloyd Hughes  
Y Cynghorydd Ieuan Williams

#### WRTH LAW:

Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro (RMJ)  
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor

Mrs Beverley Jones, Uwch Ymchwilydd,  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Y Cynghorydd H. W. Thomas  
Mr. Gareth Parry, Cyfreithiwr i'r Cynghorydd  
Thomas.

---

[Noder: Cadarnhaodd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro nad oedd angen i gynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned fod yn bresennol yn y cyfarfod ar 4 Mai 2012 nac yn y cyfarfod heddiw].

#### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb gan nac Aelod na Swyddog.

#### 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2012 yn amodol ar gywiro camgymeriad teipio bychan yn fersiwn Gymraeg y cofnodion.

### 3 CWYN YN ERBYN CYNGHORYDD

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad a baratowyd gan Gyfreithiwr y Swyddog Monitro.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau ystyried cwyn a chynnal gwrandawriad yn erbyn y Cynghorydd Hefin Thomas yn honni iddo dorri'r Côt Ymddygiad i Aelodau yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i'w gael yn euog o drosedd ar 12 Ebrill 2011. Yn dilyn ystyried y dystiolaeth, byddai'r Pwyllgor yn penderfynu pa gosb, os o gwbl, i'w phennu yn unol â Pharagraff 9(1) Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001. Roedd copi o'r weithdrefn ar gyfer Gwrandawriadau Safonau Lleol hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at adroddiad a chanfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghyd â chylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau a datganiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ynglŷn â'r ffordd y gwneir taliadau gan y Cyngor i Gynghorwyr yng nghyswllt lwfansau ac unrhyw arian a dynnir ohonynt.

Er mai hwn, efallai, oedd y tro cyntaf y gofynnwyd i'r Pwyllgor cyfredol ystyried rhoi cosb dan y ddeddfwriaeth gyfredol, roedd yna ddisgwyl y byddai yna elfen o gysondeb a thegwch rhwng y mater hwn a materion eraill y bydd efallai angen i'r Pwyllgor roi sylw iddynt yn y dyfodol. Byddai angen i'r Pwyllgor ystyried sut y dylid lleoli nodweddion yr achos hwn o ran y raddfa o benderfyniadau a oedd ar gael.

Yn dilyn ystyried yr holl gyflwyniadau, mater i'r Pwyllgor oedd penderfynu pa nodweddion lliniarol ac/neu waethybol y byddai'n eu cymryd i ystyriaeth a pha bwysau y byddai'n ei roi i bob un ohonynt. Fe ddylid cynnwys y materion hyn yn y penderfyniad y byddai'r Pwyllgor yn ei gyhoeddi.

Roedd yna fanylion yn yr adroddiad hefyd ynglŷn â hawliau apêl / herio ac am rai gofynion statudol ynglŷn â chyhoeddi.

Rhodddwyd cyfle i Mrs Beverley Jones, Uwch Archwilydd grynhoi'r canfyddiadau a oedd yn adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Rhodddwyd cyfle hefyd i'r Cynghorydd Thomas wneud sylwadau ar lafar ynglŷn â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad a wnaed ei fod wedi methu â chydymffurfio gyda Chôt Ymddygiad y Cyngor Sir. Nododd y Cynghorydd Thomas nad oedd yn anghytuno gyda'r ffeithiau a gyflwynwyd gan yr Ombwdsmon ac ni ddywedodd ychwaith nad oedd yn gyfrifol am beidio cydymffurfio gyda'r Côt Ymddygiad.

Rhodddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i'r Cynghorydd Thomas.

Rhodddodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. Gareth Parry, y Gyfreithiwr oedd yn cynrychioli y Cynghorydd Thomas i siarad gerbron y cyfarfod. Cadarnhaodd Mr. Parry iddo gynrychioli'r Cynghorydd Thomas yng nghyswllt yr achos troseddol a'r gŵyn i'r Ombwdsmon ac fe wnaeth sylwadau yn y cyfarfod heddiw ar ran ei gleient.

Ymneilltuodd y Pwyllgor Safonau i sesiwn breifat i ystyried ei benderfyniad.

Daeth y Pwyllgor Safonau yn ôl i sesiwn agored a dywedodd y Cadeirydd bod yr Aelodau wedi **PENDERFYNU** yn unfrydol y dylid atal y Cynghorydd H W Thomas am gyfnod o 6 mis o 13 Mehefin 2012 a rhoi'r awdurdod i'r Cadeirydd mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro i gwblhau'r rhesymau (y cyfeirir atynt yn Atodiad 1 y cofnodion hyn).

**MR MICHAEL WILSON  
CADEIRYDD**

## Atodiad 1

1. Nododd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Thomas wedi cael euogfarn droseddol am arwyddo'r ffurflenni cais am fudd-dal analluogrwydd lle gwnaeth "a statement which (he) knew to be false". Derbyniodd y Pwyllgor fod yr Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau (AGP) wedi casglu na chafodd y datganiad ei wneud yn anonest ond, serch hynny, roedd y Pwyllgor yn ystyried ei fod yn dal i fod yn ymdrech i sicrhau mantais ariannol bersonol o'r pwrs cyhoeddus a'i fod hefyd yn swm sylweddol. Nododd y Pwyllgor fod y datganiad anwir yn cynnwys peidio â datgelu ei swydd gyhoeddus fel Cynghorydd a'r incwm yr oedd yn ei dderbyn o'r swydd honno. Roedd yn gwybod, neu fe ddylai fod wedi gwybod, fod angen datgelu'r incwm hwnnw.
2. Nododd y Pwyllgor fod cyhoeddusrwydd negyddol sylweddol wedi ei roi i'r euogfarn yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol ac ychwanegwyd at hynny yn sgil cyhoeddi'r ffaith ei fod wedi ei ethol yn ddiweddar yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Casglodd y Pwyllgor bod y Cynghorydd Thomas wedi torri paragraff 6(1)(a) y Côd sy'n dweud "Rhaid i chi - peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod "
3. Roedd y Pwyllgor yn ystyried y disgwylir safonau uwch o ymddygiad gan Gynghorwyr na gan y cyhoedd, a bod yr hyn a wnaeth y Cynghorydd Thomas yn cael effaith ar ganfyddiad y cyhoedd o'r Cyngor a swydd cynghorydd, yn arbennig felly gan eu bod yn weithredoedd a gyflawnwyd gan gynghorydd profiadol.
4. Nododd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Thomas wedi talu cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol ar ei lwfansau fel aelod am y cyfnod dan sylw, 10 Gorffennaf 2008 i 24 Ionawr 2010, pan ddywedodd nad oedd ei ddyletswyddau fel Cynghorydd yn rhai trethadwy fel rheswm am ei fethiant i ddatgelu ei incwm pan oedd yn hawlio budd-dal. Eglurwyd y didyniadau ar gyfer Treth ac Yswiriant Gwladol yn natganiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) a'r dogfennau a oedd ynghlwm, yn arbennig y slip cyflog. Eglurir yn y dystiolaeth fod lwfansau'r Cynghorydd Thomas yn rhai yr oedd rhaid eu datgelu yn y datganiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ac ni heriwyd y dystiolaeth honno, ac eglurwyd hefyd bod aelodau yn cael gwybod am hynny ar ôl iddynt gael eu hethol y tro cyntaf a bod cyngor ar gael yn rhwydd. Dywedodd y Cynghorydd Thomas drwy lythyr ei gyfreithiwr ei fod wedi methu â datgan ei Lwfansau Cyngor oherwydd, i bob pwrpas, "costau" oedd y rhain a oedd yn gysylltiedig gyda'i swyddogaeth. Wrth gael ei holi, cadarnhaodd y Cynghorydd Thomas ei fod wedi hawlio taliadau ychwanegol am gostau megis defnyddio ei gar gan gadarnhau felly ei fod yn hollol ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng ei Lwfansau Cynghorydd a thaliadau am "gostau" ac o'r herwydd mae'n annilysu'r lliniariad hwn.
5. Nododd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Thomas wedi ei atal yn flaenrol gan y Pwyllgor Safonau am gyfnod o 2 fis. Mae tebygrwydd rhwng y ddau achos yn yr ystyr bod y mater cynt hefyd yn ymwneud â methiant i ddatgelu diddordeb. Ymhellach, roedd y dyfarniad yn ei erbyn gan y Panel Dyfarnu unwaith eto yn ymwneud â methiant i ddatgelu diddordeb.

6. Rhoddodd y Pwyllgor sylw i holl ffeithiau'r achos gan gynnwys y lliniariad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Thomas. Roedd y Pwyllgor yn ystyried bod y lliniariad cynt yn hunanlesol ac nad oedd yn gwrthsefyll sgrwtini ac nad oedd ei edifeirwch yn ddiffuant. Dywedodd y Cynghorydd Thomas ei fod wedi sefyll i lawr fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Pwyllgor Trwyddedu ond cadarnhaodd hefyd ei fod wedi derbyn cael ei ethol i'r cadeiriau hynny ym mis Mai 2011 dim ond wythnosau ar ôl ei euogfarn droseddol.
7. Roedd y Pwyllgor yn ystyried bod y camau a gymerodd y Cynghorydd Thomas wedyn a'r ymdrechion o ran lliniaru wedi tanseilio ei sefyllfa. Roedd y Pwyllgor yn ystyried ei fod yn anniffuant. Roedd y Pwyllgor yn ystyried bod y Cynghorydd Thomas wedi methu â rhoi'r ffeithiau llawn i'r Ombwdsmon pan ofynnwyd amdanynt a chyfaddefodd i'r Pwyllgor, pan gafodd ei herio, fod y ffeithiau a roddwyd yn anghywir. Roedd hynny'n cynnwys manylion y canfyddiadau blaenorol yn ei erbyn. Nododd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Thomas wedi ceisio dibynnu ar gyngor a roddwyd gan yr Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau pan oedd cyngor o'r fath yn anghywir a bod y Cynghorydd Thomas yn gwybod, neu y dylai fod wedi gwybod, ei fod yn amlwg yn anghywir, fel y gwelir yn y dystiolaeth gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ac roedd hynny'n tanseilio hygrededd ei liniariad.
8. Roedd y Pwyllgor yn ystyried nad oedd y Cynghorydd Thomas wedi gwneud ymdrech gyson i fynychu hyfforddiant yn ystod y cyfnod cyfan gan gynnwys y cyfnodau yn dilyn gwrandawriad blaenorol y Pwyllgor Safonau a'r gwrandawriad blaenorol gerbron Panel Dyfarnu Cymru. Yn ystod y mater diweddar hwn, cafodd y Cynghorydd Thomas ei arwyddo i ffwrdd fel rhywun nad oedd yn gallu gweithio ond fe fynychodd gyfarfodydd o'r Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor a pharhaodd i gyflawni ei ddyletswyddau fel Cynghorydd yn ystod y cyfnod hwnnw ac roedd hyn wedi tanseilio ei edifeirwch a'i liniariad.
9. Wrth gloi, gofynnodd cyfreithiwr y Cynghorydd Thomas i'r Pwyllgor Safonau beidio â'i gosbi'n rhy llym gan ddweud bod y Cynghorydd Thomas eisoes wedi dioddef colled ariannol oherwydd iddo orfod talu'r arian yn ôl i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Oherwydd nad oedd gan y Cynghorydd Thomas hawl erioed i'r arian hwnnw yn y lle cyntaf, nid oedd y Pwyllgor yn gweld sut y gellid disgrifio hynny fel colled ariannol. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried fel rhywbeth sydd o fudd i achos y Cynghorydd Thomas y ffaith iddo dalu costau'r achos hwn ei hun a'i fod wedi penderfynu peidio â gofyn am indemniad gan y Cyngor. Nodwyd hyd yn oed petai'r Cynghorydd Thomas wedi gofyn am indemniad a'r indemniad hwnnw wedi'i ganiatáu, ni fyddai wedi cael taliadau o'r fath oherwydd bod y Pwyllgor Safonau wedi ei atal. Penderfynwyd felly, na ddylai hyn gael unrhyw effaith ar unrhyw gosb.
10. Casglodd y Pwyllgor fod yr achos hwn gyda'r mwyaf difrifol y byddai'n delio ag ef ac y dylid cyfeirio unrhyw achos arall a oedd yn fwy difrifol i Banel Dyfarnu Cymru (ac yn gyson gydag achosion eraill gan gynnwys Mrs Patricia Lavinia Yale - 1/10/2003). Yn wir, oni bai am y sylwadau camarweiniol ac anghywir a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Thomas fel lliniariad i'r Ombwdsmon, teimlwyd ei bod hi'n bur debygol y byddai'r Panel Dyfarnu wedi gwrandao'r achos hwn. Ar ôl cymryd yr holl

faterion i ystyriaeth, casglodd y Pwyllgor yn unfrydol y dylid atal y Cynghorydd Hefin Thomas am gyfnod o 6 mis, sef y cyfnod hwyaf y gallai ei orfodi. Mae'r atodiad i ddechrau ar y diwrnod ar ôl diwedd y broses apêl, a ddiffinnir gan y Rheoliadau perthnasol, 2001 Rhif 2281 (Cy.171) Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Lleol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

11. Roedd y Pwyllgor yn credu bod yr euogfarn droseddol yn fater difrifol iawn ynddo'i hun, ond bod y ffordd yr oedd y Cynghorydd Thomas wedi delio gyda'r mater wedyn, gan gynnwys diffyg edifeirwch diffuant, ei anallu i ymateb yn gywir i'r Ombwdsmon a'i ddibyniaeth ar gyngor anghywir gan yr Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau wedi gwaethygu'r sefyllfa ac ychwanegu at ddifrifoldeb y mater. Eto, tynnwyd cymhariaeth rhwng ei ymddygiad pan fethodd â datgelu'r ffeithiau llawn a chywir i'r Ombwdsmon a'r ymddygiad a arweiniodd at gyflwyno'r ddwy gwyn flaenorol a wnaed yn ei erbyn i'r Ombwdsmon. Ymddygiad tebyg a methiant arall i ddatgelu gwybodaeth a arweiniodd at ei euogfarn droseddol yn ddiweddar. Byddai hunangyfeiriad buan gyda'r ffeithiau llawn a delio gydag ymchwiliad yr Ombwdsmon mewn modd cywir a llawn wedi bod yn fuddiol i'w achos ac felly wedi arwain at gasgliad gwahanol. Dywedodd Gareth Parry, cyfreithiwr y Cynghorydd Thomas, bod rhai o'r datganiadau anghywir yn y cyflwyniad i'r Ombwdsmon yn gamgymeriadau anfwriadol ar ei ran. Fodd bynnag, methodd y Cynghorydd Thomas â chywiro'r camgymeriadau hyn pan dderbyniodd fwndel yr Ombwdsmon a chaniataodd i'w gyfreithiwr gadarnhau ar ei ran, nad oedd unrhyw beth a oedd yn amlwg anghywir.
- 12.1 Mae gan y Cynghorydd Thomas hawl i apelio i Banel Dyfarnu Cymru a rhaid cyflwyno'r fath Apêl yn ysgrifenedig erbyn 11 Gorffennaf 2012, sef, cyn pen 21 diwrnod i 19 Mehefin 2012 pan dderbyniodd hysbysiad am ddyfarniad y Pwyllgor Safonau. Rhaid cyflwyno'r hysbysiad i'r yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Lleol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ sef y cyfeiriad yn y Rheoliadau. Cyfeiriad Penel Dyfarnu Cymru ar ei wefan yw: Cofrestrydd, Llawr Cyntaf, Adain Ogleddol (M08), Panel Dyfarnu Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.
- 12.2 Rhaid i'r Rhybudd Apêl benodi'r rhesymau dros yr Apêl a chadarnhau a yw'r Apelydd yn cytuno i'r Apêl gael ei chynnal ar ffurf sylwadau ysgrifenedig yn unig.
- 12.3 Mae'r hawl i apelio yn ymwneud â math ac / neu hyd unrhyw gosb a weithredir.

19/06/2012

Diwygiwyd ar 26/06/12